

PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL - DYDD IAU, 1 CHWFROR 2024

COFNOD PENDERFYNIAD CYFARFOD PWYLLGOR CABINETRHIANTA CORFFORAETHOL A GYNHALIWDYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MERCHER, 1 CHWFROR 2024 AM 09:30

Yn bresennol

Y Cyngorydd J Gebbie – Cadeirydd

F D Bletsoe  
W R Goode

J P D Blundell  
J E Pratt

H J David  
J C Spanswick

N Farr  
H M Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Cyngorydd Maxine Lewis (Aelod o'r Pwyllgor)

Swyddogion:

Steve Berry

Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogi

Nimi Chandrasena

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth

Stephen Griffiths

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau

Rachel Keepins

Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Laura Kinsey

Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant

Claire Marchant

Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Oscar Roberts

Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd

Nichola Rogers

Rheolwr Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol  
Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin

**PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL - DYDD IAU, 1 CHWEFROR 2024**

Mark Shephard

Prif Weithredwr

Teitl yr Adroddiad	Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Penderfyniad	Y Cyngorydd Maxine Lewis
Dyddiad y Penderfyniad	1 Chwefror 2024

Teitl yr Adroddiad	Datganiadau o Fuddiant
Penderfynwyd	Dim
Dyddiad y Penderfyniad	1 Chwefror 2024

Teitl yr Adroddiad	Cymeradwyo Cofnodion
Penderfynwyd	<p>Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol â'r dyddiad 05/10/ 2023 fel gwir gofnod manwl gywir. Nodwyd y cywiriadau canlynol i'r cofnodion:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd y Dirprwy Arweinydd / Cadeirydd am iddo gael ei nodi bod y cyfarfod ar 05/10/23 wedi'i gadeirio gan yr Aelod Cabinet dros Ddiogelwch a Lles Cymunedol a bod y Dirprwy Arweinydd ei hun yn bresennol ond ei bod wedi gorfod gadael ar ôl cyfnod er mwyn mynychu digwyddiad arall.</li></ul>
Dyddiad y Penderfyniad	1 Chwefror 2024

Teitl yr Adroddiad	Diweddariad Datblygiadau Rhianta Corfforaethol
Penderfynwyd	Cyflwynwyd yr Adroddiad gan y Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogi. Pwrpas hyn oedd darparu'r Pwyllgor Cabinet gyda diweddariad ar ddatblygiadau Rhianta Corfforaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac i wneud cais am i'r Pwyllgor Cabinet fabwysiadu Siarter Rhianta Corfforaethol Cymru Gyfan.

Dyweddodd y Cadeirydd a'r Dirprwy Arweinydd ei bod yn brofiad ysbrydoledig i weld y bobl ifanc a'u gwaith yn y Lansiad Rhianta Corfforaethol. Nododd fod Cyngor Casnewydd wedi datgan bod plant oedd â phrofiad o fod mewn gofal i gael eu hystyried fel nodwedd warchoddedig er nad yw'n cael ei grybwyll yn yr addewid ac eglurodd y rhesymeg posib y tu ôl i'r penderfyniad.

Codwyd cwestiynau ynghylch hyfforddiant a dangosyddion Perfformiad (PIs) Rhianta Corfforaethol, a sicrhawyd y Pwyllgor gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Lles bod y Tîm Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn cymryd rhan mewn hyfforddiant Rhianta Corfforaethol, ond bod angen gwneud mwy yn gorfforaethol er mwyn sicrhau bod pawb yn deall beth oedd eu cyfrifoldebau ar draws y Cyngor. Yna byddai'r cyswllt yn cael ei wneud gyda'r Cynllun Corfforaethol a'r dangosyddion Perfformiad.

Ymatebwyd bod y Cynllun Strategol tair blynedd ar gyfer ymrwymadau tuag at blant a theulu yn cael ei gyflawni ar amser a bod camau penodol iawn o amgylch rhianta corfforaethol.

Cafwyd ymholiadau gan aelodau ynghylch addewidion a sut oedd y rhain yn cael eu mesur, a'u hymgorffori i'r cynllun gweithredu, yn ogystal â sut fyddai llwyddiannau yn cael eu mesur a sut oedd pobl ifanc yn rhan o'r broses ymgynghori.

Ymatebodd y Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogi i'r cwestiynau hyn gan gynnwys rhoi manylion am sut i symud ymlaen gyda'r cynllun gweithredu a'i roi ar waith, yn ogystal â'i fesur drwy gyfrwng y dangosyddion perfformiad. Mewn perthynas ag ymgynghori gyda phobl ifanc, roedd y Fforwm Ieuenctid wedi datgan yn agored nad oeddent yn dymuno i bobl ymgynghori â hwy am bopeth, fodd bynnag fe wnaethant godi pwyntiau clir iawn yn y trafodaethau a chafodd y rhain eu bwydo gan y Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogi, naill ai i'r Bwrdd neu i'r Gwasanaethau Plant. Tynnodd sylw at y ffaith fod adborth ystyrion wedi ei roi i'r bobl ifanc er mwyn iddynt deimlo bod eu llais wedi cael ei glywed a bod eu safbwyntiau yn cael eu gwerthfawrogi.

Cafwyd ymholiadau yn ogystal ynghylch datganiad Cyngor Casnewydd y dylai plant oedd â phrofiad o fod mewn gofal gael ei ystyried fel nodwedd warchoddedig, gyda chais am i hyn gael ei archwilio gyda Chyngor Casnewydd er mwyn penderfynu a oedd hyn yn rhywbeth fyddai Pen-y-bont ar Ogwr yn gallu ei ddyblygu, a hyd yn oed Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud hyn yn flaenoriaeth genedlaethol.

Ymatebodd Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant drwy ddweud y byddai'n dilyn hyn i fyny gyda'i chymheiriaid yn Awdurdod Lleol Casnewydd.

**PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL - DYDD IAU, 1 CHWEFROR 2024**

	<p><b><u>Penderfynwyd:</u></b> Cytunwyd y byddai Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol, ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymrwmo i'r 'Siarter Rhianta Corfforaethol - Addewid Cymru - Addewid Rhianta ar y Cyd</p> <p>Cytunwyd yn ogystal bod Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol yn nodi bod y cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Cyfranogi Arbenigol oedd yn cefnogi profiad bod mewn gofal y Fforwm Ieuentid fel y nodwyd yn yr adroddiad.</p>
Dyddiad y Penderfyniad	1 Chwefror 2024

Teitl yr Adroddiad	Monitro Perfformiad a Chynnydd Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin
Penderfynwyd	<p>Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol, er mwyn darparu gwybodaeth ynghylch perfformiad a chynnydd Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin. Roedd hyn yn cynnwys Adroddiad Ansawdd Gwasanaeth ar gyfer C3 a C4 2022-23 a'r Adroddiad Gwasanaeth ar gyfer C1 a C2 2023-24 fel y disgrifir yn atodiadau'r adroddiad sydd wedi eu hatodi.</p> <p>Codwyd cwestiynau ynghylch y broses fabwysiadu ac fe'i gwnaed yn eglur gan y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol bod hyn fel arfer yn cymryd rhwng chwech a deuddeg mis ar gyfartaledd o pan gyflwynwyd y cais i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei ganiatáu.</p> <p>Gwnaed cais gan yr aelodau am i ddadansoddiad gael ei wneud er mwyn adlewyrchu perfformiad y broses ar draws y rhanbarth yn y dyfodol, er mwyn gwella gwasanaethau'r Awdurdod.</p> <p>Holodd yr Aelodau ynghylch hyfforddiant mewn ysgolion i'w cynorthwyo i gefnogi plant a phobl ifanc oedd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys rhai mewn Ysgolion Uwchradd oedd yn wynebu heriau'n gysylltiedig â'u gwreiddiau. Ymatebodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol i'r cwestiynau hyn drwy ddatgan bod dau wahanol weithdy ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, gyda'r sesiwn Ysgolion Uwchradd yn rhoi pwyslais ar y cyfryngau cymdeithasol, gan mai dyma bellach lle roedd pobl ifanc yn troi ato os oedd ganddynt gwestiynau ynghylch aelodau teulu naturiol.</p> <p>Gwnaeth yr aelodau gais am i'r adran addysg yn yr Awdurdod gysylltu gyda phenaethiaid er mwyn eu hatgoffa ynghylch ymgymryd â'r sesiynau ymwybyddiaeth ynghylch plant wedi eu mabwysiadu mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod athrawon yn gallu adnabod anghenion y plant yma a darparu cefnogaeth briodol.</p> <p>Mewn ymateb i awgrym a wnaed, datganodd Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Gofal Plant na</p>

fyddai'r Bwrdd

yn gwrthwynebu'r syniad o gael mwy nag un cynrychiolydd addysg i eistedd ar y Bwrdd.

Ar fater babanod oedd yn cael eu gadael a chefnogaeth i fenywod ifanc, ymatebodd Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod yr Awdurdod yn gweithio'n agos iawn gyda phartneriaid o fewn y Bwrdd Iechyd ac mewn Addysg, yn arbennig felly o gwmpas gwasanaethau iechyd rhywiol, er mwyn sicrhau bod plant, pobl ifanc a menywod bregus yn derbyn cyngor ac addysg o'r dechrau'n deg.

Cydnabuwyd bod grwpiau o'r fath yn arbennig o fregus ac mai rhan allweddol o waith y darparwyr gofal oedd hwnnw o amgylch perthnasau iach ac annog ymddygiadau iach. Ychwanegodd Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Plant bod y gwasanaethau cefnogi wedi cael eu hymestyn i famau beichiog gyda 'Meddwl am y Baban' a'r mathau hynny o wasanaethau wedi eu hanelu at gefnogi ac arfogi rhieni i edrych ar ôl eu plant yn hyderus a diogel fel nad oeddent yn cael profiad o fod mewn gofal. Dywedodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol fod yna broses genedlaethol ar gyfer plant sy'n dychwelyd o fod mewn gofal a'u bod yn gweithio'n agos gyda thîm drws blaen yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod gan y teuluoedd hynny y gefnogaeth maent ei hangen.

Mewn perthynas â grwpiau siblingiaid a phlant o darddiad ethnig amrywiol, sydd, yn hanesyddol wedi wynebu mwy o heriau wrth aros am eu 'tŷ am byth', eglurodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol fod yr ymgyrch farchnata genedlaethol a lleol wedi rhoi llawer o bwyslais ar grwpiau siblingiaid - fodd bynnag, gwelwyd bod heriau yn codi pan fyddai gan un o'r siblingiaid anghenion ychwanegol, a hynny'n achosi problemau cymhleth posib i'r plant. Nododd fod eu hymgyrchoedd marchnata wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau cymunedol wyneb yn wyneb lle roedd aelodau o'r tîm yn ceisio cyfuno digwyddiadau ar draws y rhanbarth gan estyn allan i wahanol gefndiroedd diwylliannol.

Llongyfarchwyd y swyddogion a'u tîmoedd gan y Pwyllgor Cabinet, wrth i'r Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol ddatgan bod sefyllfa gyffredinol y gwasanaeth mabwysiadu yn un bositif iawn a bod hynny yn deillio'n uniongyrchol o'r staff oedd yn darparu'r gwasanaeth.

**Penderfynwyd:** Cytunodd y Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol i ystyried a nodi perfformiad a chynnydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol.

Cytunwyd yn ogystal y dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys geirfa o acronymau a grybwyllwyd o fewn adroddiadau.

**PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL - DYDD IAU, 1 CHWFROR 2024**

Dyddiad y Penderfyniad	1 Chwefror 2024
------------------------	-----------------

Teitl yr Adroddiad	Eitemau Brys
Penderfynwyd	Dim
Dyddiad y Penderfyniad	1 Chwefror 2024

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y [ddolen](#) hon

Daeth y cyfarfod i ben am 10.25